**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**DISGRIFIAD SWYDD**

| | |
|---|---|
| TEITL Y SWYDD: | Gwyddonydd Data Arfodirol Cynorthwyol sy'n Fyfyriwr<br>Lleoliad gwaith israddedig (12 mis) |
| RHIF SWYDD: | N/A |
| ADRAN: | Yr Amgylchedd a Thai |
| LLEOLIAD: | Swyddfa'r Alpau, Gwenfô |
| GRADD/CYFLOG Y SWYDD: | £NJC Single Status Spinal Point 2 – £23,656 (* as at April 2024)<br><br>* this may change based on any agreement in 2043 |
| YN ATEBOL I: | Reolwr y Rhaglen |
| YN GYFRIFOL AM: | Dim |
| ADRAN: | Peirianneg |
| PRIF DDIBEN Y SWYDD: | Cynorthwyo a dysgu am yr holl dasgau sy'n perthyn i waith y Gwyddonydd Arfordirol, gan gynnwys cynllunio, perfformio, prosesu, sicrwydd ansawdd ac adrodd am arolygon arfordirol er mwyn cefnogi rhaglen monitro strategol Cymru. |

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn cyfeirio at brif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd.  Nid yw o reidrwydd yn rhestru'n fanwl yr holl dasgau y mae angen eu gwneud i gyflawni'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn.

1. Helpu i gasglu data monitro arfordirol, gan gynnwys arolygon topograffig, sicrwydd ansawdd a dadansoddi data prosesau arfordirol cychwynnol o fewn GIS. Cario offer arolygu ar draws ardaloedd rhynglanwol mawr weithiau'n greigiog dan draed.

2. Cynnal a chadw setiau data monitro arfordirol; gan gynnwys adolygu data hanesyddol a'i ddadansoddi

3. Monitro ac adolygu gwaith contractwyr allanol i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion a safonau penodol yn unol â'r manylebau WCMC a'r briff monitro

4. Rhoi cymorth i Awdurdodau Rheoli Risg eraill gydag arolygon arfordirol a sicrwydd data prosesu data

5. Cynnig cyngor neu wybodaeth am y rhaglen monitro arfordirol i sefydliadau, partneriaid neu unigolion allanol

6. Sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Ariannol, Rheolau Sefydlog, Polisïau a Gweithdrefnau'r Cyngor.

7. Rhoi egwyddorion Polisi Cyfle Cyfartal y Cyngor ar waith wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.

8. Cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch / gweithdrefnau a pholisïau Iechyd a Diogelwch perthnasol y Cyngor a gofalu'n rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch eraill y gallai eich gweithrediadau / esgeulustod effeithio'n negyddol arnynt.

9. Gweithredu egwyddorion Polisi Amgylcheddol y Cyngor wrth wneud y dyletswyddau uchod

10. Rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r swyddog diogelu priodol yn ddi-oed.

11. Y fath ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n gymesur â'r radd ac yn unol a chymeriad cyffredinol y swydd ag y gellir eu hangen yn rhesymol gan y Prif Swyddog o dro i dro.